

## **PRIFFYRDD, CYMRU**

**2009 Rhif 45**

### **DEDDF PRIFFYRDD 1980**

#### **GORCHYMYN CEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (YR A40) (GWELLIANT FFYRDD YMYL WRTH THE KELL, TREFGARN) 2009**

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer pwerau a roddwyd gan adrannau 14 a 125 o Ddeddf Priffyrdd 1980<sup>(1)</sup> a phob pŵer galluogi arall<sup>(2)</sup>, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn: -

1. Awdurdodir Gweinidogion Cymru, o ran y gefnffordd yn The Kell, Trefgarn yng Nghymunedau Rudbuxton a Spittal yn Sir Benfro i wneud y canlynol:-

- a. gwneud y gwaith o wella priffyrdd;
- b. cau priffyrdd neu rannau o briffyrdd;
- c. cau mynedfa breifat i fangre, ac
- ch. darparu mynedfeydd newydd i fangreoedd.

2. Dangosir y gwaith a awdurdodir gan erthygl 1 (y bydd y cyfan ohono yn The Kell, Trefgarn yn Sir Benfro) ar y map sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn ac fe'i dynodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn y dull canlynol:-

- a. enwir y priffyrdd sydd i'w gwella ac fe'u dangosir â llinellau rhesog;
- b. disgrifir y darnau a'r rhannau o'r priffyrdd sydd i'w cau (bras amcan yn unig yw pob pellter) ac fe'u dangosir â llinellau rhesog du a gwyn;
- c. disgrifir darnau sydd i'w cau o fynedfeydd preifat i fangreoedd (bras amcan yn unig yw pob pellter), a rhoddir iddynt y cyfeirnodau a ddangosir ar y

map ac a ddangosir â bandiau du solet;

- ch. dangosir mynedfeydd newydd sydd i'w darparu drwy ddefnyddio yn yr Atodlen y cyfeirnodau hynny a roddir i'r mynedfeydd newydd ar y map, ac os oes mynedfa newydd i'w darparu mewn cysylltiad â chau darn o fynedfa breifat a ddisgrifir yn yr atodlen honno, rhoddir ei rhif cyfeirnod gyferbyn â'r disgrifiad o'r darn hwnnw. Dangosir llwybrau mynedfeydd newydd sydd i'w darparu drwy linellau lletraws.

3. Datgenir drwy hyn fod Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni:-

- (1) parthed pob darn o briffordd yr awdurdodir ei gau gan y Gorchymyn hwn, naill ai fod yna lwybr amgen rhesymol o hwylus ar gael neu y bydd un yn cael ei ddarparu cyn bod y darn hwnnw o briffordd yn cael ei gau; a
- (2) parthed pob mynedfa breifat i fangre yr awdurdodir ei chau gan y Gorchymyn hwn, naill ai fod yna fynedfa arall rhesymol o hwylus i'r fangre ar gael neu y bydd un yn cael ei darparu cyn i'r fynedfa breifat honno gael ei chau neu nad oes gofyn rhesymol am fynedfa i'r fangre berthnasol

4. Os, yn union cyn cau darn o briffordd yn unol â'r Gorchymyn hwn, y bydd unrhyw offer ymgymrwyr statudol o dan y briffordd, ynnddi, arni, drosti, ar ei hyd, neu ar ei thraws, yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Priffyrdd 1980, bydd gan yr ymgymrwyr hynny yr un hawliau o ran yr offer ag a oedd ganddynt yn union cyn cau'r briffordd.

5. Yn y Gorchymyn hwn:-

mesurir pob mesur pellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol neu'r fynedfa berthnasol i fangre, yn ôl y digwydd;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd Llundain-Abergwaun (yr A40);

mae “gwelliant” a “gwella” (“*improvement*”) mewn perthynas â phriffordd yn cynnwys codi, gostwng neu newid y briffordd honno mewn modd arall, a rhaid dehongli “wedi’i gwella” yn unol â hynny;

ystyr “y map a adneuwyd ” (“*the deposited map*”) yw’r map a geir yn y ffolio mapiau sy’n dwyn y rhif HA 14/1 WAG 4 ac sydd wedi’i farcio “Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) (Gwelliant Ffyrdd Ymyl wrth The Kell, Trefgarn) 2009 sydd wedi’i lofnodi ar ran Gweinidogion Cymru, ac wedi’i adneuo yn Uned Storio ac Adfer Cofnodion (RSRU) Llywodraeth Cynulliad Cymru, Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd.

6. Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Rhagfyr 2009 a’i enw yw Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) (Gwelliant Ffyrdd Ymyl wrth The Kell, Trefgarn) 2009.

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

Dyddiad                    3 Rhagfyr 2009

## **J COLLINS**

Dirprwy Gyfarwyddwr Cynllunio a  
Llywodraethu Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cynulliad Cymru

(1) 1980 p.66

(2) Yn rhinwedd O.S.1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae’r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## **DEDDF PRIFFYRDD 1980**

### **GORCHYMYN CEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (YR A40) (GWELLIANT WRTH THE KELL, TREFGARN) 2009**

### **GORCHYMYN CEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (yr A40) (GWELLIANT FFYRDD YMYL WRTH THE KELL, TREFGARN) 2009**

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud y Gorchmynion canlynol:-

1. Gorchymyn o dan adran 10 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn darparu y bydd ffordd 0.48 o gilometrau o hyd sydd i gael ei hadeiladu yn The Kell, Trefgarn yn Sir Benfro a fydd yn cychwyn wrth bwynt ar y gefnffordd oddeutu 622 o fetrau i'r de o linell ganol y gyffordd â chefnffordd yr A40 â'r ffordd C3059 i Spittal ac yn ymestyn i gyfeiriad gogleddol yn gyffredinol at bwynt oddeutu 112 o fetrau i'r de o gyffordd y gefnffordd â'r ffordd C3059 i Spittal yn dod yn gefnffordd o'r dyddiad pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym; a

2. Gorchymyn o dan adrannau 14 a 125 o Ddeddf Priffyrdd 1980 fydd yn eu hawdurdodi;

- i. i wella priffyrdd;
- ii. i gau priffyrdd;
- iii. i gau mynedfeydd preifat i fangreoedd;  
a
- iv. i ddarparu mynedfeydd newydd i fangreoedd

a hyn i gyd ar lwybr y cyfryw gefnffordd uchod, neu yn ei chyffiniau.

Gellir gweld copïau o'r Gorchmynion a'r mapiau sy'n mynd gyda hwy ar bob adeg resymol rhwng 11 Rhagfyr 2009 hyd 22 Ionawr 2010 neu o fewn 6 wythnos i ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn, pa gyfnod bynnag sy'n dod i ben yn ddiweddaraf, yn swyddfeydd Cyngor Sir Benfro, Neuadd y Sir, Hwlfordd, Sir Benfro SA61 1TP ac yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, Trafnidiaeth ac Adfywio

Strategol, Is-adran Cynllunio a Llywodraethu  
Trafnidiaeth 3, Parc Cathays, Caerdydd CF10  
3NQ.

Gellir prynu copïau o'r Gorchymyn sy'n dwyn  
yr enw 'Gorchymyn Cefnffordd Llundain I  
Abergwaun (yr A40) (Gwelliant Wrth The Kell,  
Trefgarn) 2009' O.S. 2009 Rhif. 3192 (Cy.277)  
gan werthwyr llyfrau neu'n uniongyrchol o'r  
TSO Ltd (Y Llyfrfa Cyf).

Gellir cael copïau o'r Gorchymyn sy'n dwyn yr  
enw 'Gorchymyn Cefnffordd Llundain I  
Abergwaun (yr A40) (Gwelliant Ffyrdd Ymyl  
Wrth The Kell, Trefgarn) 2009' oddi wrth:  
Llywodraeth Cynulliad Cymru, Trafnidiaeth ac  
Adfywio Strategol, Is-adran Cynllunio a  
Llywodraethu Trafnidiaeth 3, Parc Cathays,  
Caerdydd CF10 3NQ.

Caiff unrhyw berson y mae gwneud y naill  
neu'r llall o'r Gorchymynion hyn yn ei  
dramwyddo, ac sy'n dymuno cwestiynu  
dilysrwydd y Gorchymynion neu ddilysrwydd  
unrhyw ddarpariaeth sydd ynddynt ar y sail nad  
yw o fewn pwerau Deddf Priffyrdd 1980 neu ar  
y sail na chydymffurfiwyd, mewn perthynas â'r  
Gorchymynion, ag unrhyw un o ofynion y  
Ddeddf honno neu o ofynion Rheoliadau a  
wneir oddi tani, wneud cais i'r Uchel Lys o  
fewn 6 wythnos ar ôl 11 Rhagfyr 2009, neu o  
fewn 6 wythnos ar ôl dyddiad cyhoeddi'r  
Hysbysiad hwn os bydd y cyfryw gyfnod yn  
dod i ben yn ddiweddarach, am atal neu  
ddiddymu'r Gorchymynion neu unrhyw  
ddarpariaeth a geir ynddynt.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn Llinell a'r  
Hysbysiad yn [www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk) (detholer  
'Deddfwriaeth', 'Is-deddfwriaeth', 'Offerynnau  
Statudol Lleol', Gorchymynion Llinell y Ddeddf  
Priffyrdd', '2009').

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl  
a'r Hysbysiad yn [www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk) (detholer  
'Deddfwriaeth', 'Is-deddfwriaeth', 'Offerynnau  
Anstatudol', 'Trafnidiaeth, Cymru', 'Ymylon  
Ffyrdd a Gorchymynion Prynu Gorfodol yn unol  
â'r Ddeddf Priffyrdd', '2009').

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Trafnidiaeth ac Adfywio Strategol, Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth 3, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

**M D BURNELL**

Yr Is-adran Cynllunio a Llywodraethu  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cynulliad Cymru